

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 14eg 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Arwel Davies, Huw Edwards, Geraint Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Jones, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cyngorau Cymuned a Thref.

Adroddodd y clerc fod y Cyngor wedi bod yn llwyddianus gyda'u cais a chytunwyd i archebu'r llenni llwyfan i Neuadd Parc a gofyn i Gwyn Charles gychwyn ar y gwaith ym mynwent Talybont. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn cyfraniad Neuadd Parc tuag at gost y llenni. Awdurdodwyd y clerc i dalu'r anfonebau pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau a hawlio'r arian yn nôl o'r gronfa.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhybuddion cau ffordd yn Parc a'r B4391, Llan Ffestiniog ym mis Gorffennaf.

b) Un Llais Cymru.

i) Nodyn Datblygu Ymarfer 28: Archwiliad Mewnol.

ii) Modiwlau hyfforddi digidol newydd. Cytunodd y clerc i fynychu un o'r sesiynnau hyfforddi a rhannu'r gost gyda Chyngor Llandderfel.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft. Trafodwyd ei gynnwys a'r ymateb i anfon yn nôl.

ii) Trefniadau parcio newydd ger Llyn Tegid a Llanygerw.

iii) Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio – gwybodaeth i gynghorau cymuned a thref.

ch) Amrywiol.

i) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - archwilio agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a

Chymuned gan ystyried yn benodol eu barn ar faint a strwythur cynghorau o'r fath a sut maent yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. Gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r holiadur.

ii) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad canolfan hyfforddi Hwb Awen

v) Ceisiadau Cynllunio.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Fehefin a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.

Cytunwyd i dalu –

i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)

ii) TWE

iii) Archwilio Cymru (awdit allanol 2024-25)

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Ceir yn mynd yn sownd yn y ffôs ger Cynythog, Llidiardau gan fod y glaswellt wedi tyfu'n uchel a gyrrwyr ddim yn dallt ei fod mor ddwfn mewn mannau, byddai gosod peipen a'i gau i fyny yn datrys y broblem yma.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 8fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.